# CYFARFOD AR Y CYD O BWYLLGORAU CRAFFU'R CABINET / SGILIAU ADDYSG A DIWYLLIANT / ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 2 Mehefin 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.Bamsey, J.Evans, S.E.Freeguard, S.Harris, N.T.Hunt, H.N.James, C.J.Jones, J.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Renkes, S.H.Reynolds, M.Spooner, R.L.Taylor, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Brennan, S.Curran, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, W.John, H.Jones, K.Jones, M.Shaw, A.Thomas, P.Walker a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, S.Lynch, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

## 1. PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd S Hunt yn Gadeirydd a bod y Cynghorydd S Rahaman yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod ar y cyd hwn.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd Sian Harris Parthed: Diweddariad Amgueddfa Cefn Coed gan ei bod yn aelod o'r grŵp llywio blaenorol ar gyfer

Amgueddfa Glofa Cefn Coed a sefydlwyd gan CBSCNPT, ac mae'n aelod o Gyfeillion Glofa Cefn Coed ar hyn o bryd.

Y Cynghorydd Steve Hunt Parthed: Diweddariad Amgueddfa Cefn Coed gan ei fod yn aelod o'r grŵp llywio blaenorol ar gyfer Amgueddfa Gwaith Glo Cefn Coed a sefydlwyd gan CBSCNPT

3. **<u>DIWEDDARIAD AMGUEDDFA CEFN COED (WEDI'I AMGÁU O FEWN PAPURAU'R CABINET)</u>**

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwaith arfaethedig a'r materion iechyd a diogelwch sy'n dod i'r amlwg ar safle amgueddfa Cefn Coed; roedd yr adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth am Weithgor Cefn Coed a fyddai'n cael ei sefydlu i helpu i lunio cynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol.

Hysbyswyd yr Aelodau y gwnaed cais am grant i Lywodraeth Cymru am tua £1.8 miliwn, a oedd wedi'i gymeradwyo; roedd yn ofynnol i'r cyngor gyfrannu gweddill yr arian sydd ei angen i baratoi cynllun (£800,400 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd).

Dywedwyd bod y cynllun gwreiddiol a grëwyd yn ceisio cyflawni nifer o elfennau gan gynnwys canolfan ymwelwyr newydd, gwaith allanol ac ardal chwarae awyr agored. Cynhaliwyd diwydrwydd dyladwy cychwynnol ar y safle a gododd nifer o gwestiynau allweddol ac a oedd yn golygu bod angen ymarfer diwydrwydd dyladwy manylach; roedd hyn yn cynnwys ymchwilio ymhellach i nifer o faterion, gan gynnwys ymgynghori â CADW, ac o ganlyniad i'r gwaith hwn, daeth yn amlwg nad oedd modd parhau â'r cynllun gwreiddiol ac felly cyflwynwyd cynnig arall. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd modd datblygu'r cynllun diwygiedig oherwydd yr elfennau amser dan sylw; byddai wedi cymryd tua 18 mis i'w ddatblygu, ond roedd yn rhaid i'r cyngor wario'r arian o fewn 4-5 mis (erbyn mis Mawrth 2021). O ganlyniad i hyn, cytunwyd â Llywodraeth Cymru y byddai'r cyngor yn cwblhau gwaith arolygu yn lle, er mwyn deall y materion ar y safle a sicrhau bod y cyngor mewn sefyllfa dda i wneud cais am arian, pe bai rownd arall o arian grant ar gael.

Cadarnhaodd swyddogion fod y gwaith arolygu wedi'i gwblhau a thynnwyd sylw at nifer o faterion; un ohonynt oedd y pryderon iechyd a diogelwch presennol ar gyfer y safle. Soniwyd y byddai'n costio

dros £1 filiwn i'r cyngor ddelio â'r pryderon iechyd a diogelwch. Mewn perthynas â'r gwaith yr oedd Swyddogion yn ei gynnig fel rhan o'r cynllun diwygiedig, nodwyd mai'r awgrymiadau cychwynnol oedd y byddai hyn yn costio dros £8 miliwn.

Rhannodd yr Aelod lleol dros y Creunant, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, bryderon ynglŷn ag elfennau o'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac ailadroddodd werth y safle ar gyfer y gymuned leol a thu hwnt. Rhannodd yr Aelod lleol wybodaeth hefyd am hanes y safle a meddyliau a phrofiadau personol gan gynnwys y rheini y tynnwyd sylw atynt gan ymwelwyr â'r amgueddfa.

Nododd yr adroddiad a ddosbarthwyd fod y cyngor wedi prydlesu tua 1.6 erw o dir ac adeiladau, gan gynnwys Amgueddfa Glofa Cefn Coed, o Lywodraeth Cymru a oedd i fod i ddod i ben yn 2077; dan delerau'r brydles, roedd y cyngor yn gyfrifol am yr holl faterion atgyweirio a chynnal a chadw. Cododd yr Aelodau nifer o ymholiadau mewn perthynas â'r gwaith atgyweirio yr oedd angen ei wneud ar safle'r amgueddfa; gofynnwyd a oedd unrhyw faterion wedi'u codi pan oedd yr amgueddfa ar agor, ac os felly pam nad aethpwyd i'r afael â'r materion hyn. Esboniodd swyddogion fod y safle yn un o nifer o safleoedd hen a chymhleth yr oedd y cyngor yn berchen arnynt ac nad oedd digon o arian o fewn y cyllidebau i fynd i'r afael â phob problem ym mhob adeilad; cafodd rhai o'r materion mwy pryderus eu monitro dros y blynyddoedd. Mewn perthynas â'r cynllun, nodwyd bod rhai o'r materion yr oedd angen ymchwilio iddynt y tu allan i brydles bresennol y cyngor. Er mwyn cyflawni'r cynllun, byddai angen i'r cyngor gaffael budd mewn tir a oedd yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Nodwyd yr aethpwyd i'r afael ag unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar safle'r amgueddfa, er enghraifft bu'n rhaid dymchwel un rhan o'r adeilad ychydig flynyddoedd yn ôl oherwydd pryderon iechyd a diogelwch. Hysbyswyd yr Aelodau fod y gwaith arolygu a wnaed yn ddiweddar yn llawer mwy cymhleth nag arfer ac yn costio dros £100k; nid oedd gan y cyngor y gallu i ymgymryd â'r math hwn o waith yn fewnol, ac felly bu’n rhaid talu cwmni allanol i wneud y gwaith.

Cyfeiriwyd at y pwynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a oedd yn nodi mai tua £60k y flwyddyn oedd y diffyg gweithredu presennol. Nodwyd nad oedd gan yr amgueddfa gyfleuster talu â cherdyn i ymwelwyr ei ddefnyddio yn y siop, a oedd yn gyfle a gollwyd; nid oedd gan yr amgueddfa beiriant diodydd/byrbrydau ychwaith a allai fod wedi cynhyrchu incwm. Gofynnwyd pam nad oedd yr amgueddfa wedi cael cyfleusterau talu â cherdyn ac a oedd Cyngor Castell-nedd Port

Talbot wedi cynnal ymarferion cynhyrchu incwm ar y safle. Cadarnhaodd swyddogion mai un o'r rhesymau dros sefydlu Gweithgor Cefn Coed oedd deall beth oedd yn bwysig a sut i ddatblygu'r cyfleuster ar gyfer yr 21ain ganrif, yn enwedig o ran cyfleoedd masnachol a chyfleoedd i gynhyrchu incwm. Hysbyswyd y Pwyllgor fod cyfleuster cerdyn ar y safle o'r blaen, ond gan mai dim ond pedwar mis o'r flwyddyn yr oedd yr amgueddfa ar agor, nid oedd y taliadau a gyflwynwyd i'r cyngor yn ei gwneud hi'n ymarferol cadw'r cyfleuster hwn; roedd hyn yn rhywbeth y byddai Swyddogion yn ymchwilio iddo yn y dyfodol. Soniwyd bod cyfleusterau talu â cherdyn a oedd yn codi tâl fesul trafodyn, y gellid ymchwilio iddynt ar gyfer lleoliadau fel yr amgueddfa.

O ran y cynnig gwreiddiol yn 2019, gofynnodd yr Aelodau pam y codwyd materion, er enghraifft gyda CADW. Hysbyswyd yr Aelodau fod y cais am grant yn cael ei lunio'n gyflym iawn, yn yr un modd â llawer o geisiadau grant a oedd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd; nid oedd hwn yn ddigwyddiad anarferol. O ganlyniad i hyn, nodwyd na chafodd y cyngor gyfle i ymgymryd â'r holl ddiwydrwydd dyladwy; yna cawsant gyfnod byr iawn i gyflawni'r cynllun a oedd yn fater arall.

Nodwyd bod swm dros dro o £200k ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith yr arolwg; Gofynnwyd i swyddogion faint oedd wedi'i wario, ac a fyddai unrhyw arian dros ben yn cael ei glustnodi i'w ddefnyddio ar arolygon yn y dyfodol. Esboniwyd bod tua £110k-£115k wedi'i wario ar yr arolygon yr oedd eu hangen/y gellid eu cwblhau; er i Lywodraeth Cymru glustnodi £200k, dim ond y swm yr oedd ei angen i wneud y gwaith a ddarparwyd i'r cyngor. Ychwanegwyd bod yr holl arolygon wedi'u cynnal bellach, ac ar hyn o bryd nid oedd unrhyw ofynion pellach ar gyfer unrhyw arolygon ychwanegol y gellid eu cynnal ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at flaenoriaeth allweddol 3 Cynllun Gweithredu'r Cymoedd, sef Adfywio Cymunedol; Rhestrwyd Amgueddfa Glofa Cefn Coed fel cam gweithredu i'w archwilio. Gofynnwyd a oedd y camau gweithredu hyn wedi'u cymryd erioed, a dywedodd Swyddogion y byddai hyn yn un o weithredoedd Gweithgor Cefn Coed wrth symud ymlaen pan gafodd ei ailsefydlu.

O ran y materion iechyd a diogelwch sy'n dod i'r amlwg a gynhwyswyd yn yr adroddiad, soniwyd bod darnau o’r corn simnai’n torri ac yn syrthio o uchder; sicrhawyd grant yn 2014 a dalodd tuag at ailadeiladu rhannau o'r corn. Gofynnodd yr Aelodau a allai Swyddogion gadarnhau pa rannau o'r corn simnai oedd bellach yn

anniogel ac os oedd angen, a allai'r cyngor wneud cais am grant arall i helpu gyda'r ailadeiladu. Nodwyd bod yr arolwg diweddar yn rhestru nad oedd y corn simnai’n ddiogel; byddai angen i'r swyddogion technegol edrych ar hyn er mwyn nodi pa rannau penodol oedd yn anniogel. Cadarnhaodd swyddogion ei bod yn bosib gwneud cais am grant arall ac y byddai angen iddynt ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn darganfod beth oedd ar gael ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r pryderon iechyd a diogelwch a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Gofynnwyd pam nad oedd unrhyw un o'r materion hyn wedi'u hamlygu o'r blaen, gan gymryd bod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal cyn i'r amgueddfa agor bob blwyddyn. O ran y gwaith atgyweirio, nodwyd na fu unrhyw arian ar gael i ymgymryd â'r gwaith; roedd canllawiau clir y gwahanol dimau o syrfëwr a wnaeth y gwaith yn cadarnhau na fyddai'n werth am arian i ymgymryd â'r gwaith hwnnw ar ei ben ei hun ac y dylid ei ystyried fel cynllun gwaith cyffredinol. Dywedodd swyddogion fod arolygon iechyd a diogelwch gweledol yn cael eu cynnal bob blwyddyn, ond roedd yr arolwg penodol hwn yn fanylach a bod arbenigwyr yn ymwneud â hyn i helpu i ddeall natur y problemau ac i roi syniad am gost atgyweiriadau.

Gofynnodd yr Aelodau pwy fyddai'n rhan o'r Gweithgor Cefn Coed a ailsefydlwyd a dywedasant yr hoffent weld Swyddogion, Cynghorwyr a gweithwyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot a oedd yn frwd dros yr amgueddfa’n ymwneud â hyn. Nodwyd bod y cynnig presennol yn rhestru mai'r Cadeirydd fyddai'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes; Roedd swyddogion wedi cael cyngor gan unigolion a oedd yn adnabod yr amgueddfa orau, ac roedd ganddynt wybodaeth am yr hanes a'r brwdfrydedd amdani. Cynigiwyd ar hyn o bryd i'r unigolion canlynol fod yn aelodau o'r Gweithgor:

- Swyddog Addysg Treftadaeth
- Rheolwr yr Amgueddfa
- Rheolwr Twristiaeth CNPT
- Pennaeth Eiddo ac Adfywio CNPT neu Reolwr Adfywio a Datblygu Economaidd CNPT
- Rheolwr Eiddo a Phrisio CNPT
- Uwch-syrfëwr o Lywodraeth Cymru
- Cynghorydd amgueddfeydd Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd o CADW

Ychwanegwyd y byddai'r Gweithgor yn cyfarfod â'r rhanddeiliaid â diddordeb i ddechrau ac yn llywio'r hyn a oedd yn bwysig i'r cyfleuster a'r gymuned, cyn cwblhau gwaith gan gynnwys y diwydrwydd dyladwy yr oedd ei angen; yn dilyn hyn, byddai'r Gweithgor yn llunio cynigion cynaliadwy a phriodol, cyn eu cyflwyno i gyfarfod priodol y pwyllgor. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhanddeiliaid sydd â diddordeb ar bob adeg ac yn datblygu cynllun cyfathrebu a fydd hefyd yn rhoi gwybod i'r Aelodau lleol sut y cyfathrebir â hwy a pha mor aml.

Trafododd y Pwyllgor y cysylltiad â CADW yn y prosiect penodol hwn. Soniodd swyddogion eu bod yn gweithio'n aml gyda CADW ar wahanol adeiladau, ac yn gwerthfawrogi anhawster eu swydd a oedd yn cynnwys cadw treftadaeth; Gweithiodd swyddogion gyda CADW i geisio dod o hyd i ateb a oedd yn dderbyniol i bob parti.

Awgrymwyd y dylai'r tri Aelod lleol a'r Aelod Cabinet perthnasol fod yn rhan o Weithgor Cefn Coed wrth symud ymlaen gan fod eu mewnbwn yn werthfawr. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes a'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio yn trafod o ran llunio proses i gynnwys y rheini a grybwyllwyd.

Mynegodd yr Aelodau botensial y safle, yn enwedig o ran twristiaeth. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi ymrwymo i archwilio'r holl bosibiliadau ar gyfer datblygu'r safle yn y dyfodol a gobeithiwyd fod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn egluro'r gwaith diweddar a wnaed. Anogodd y Prif Weithredwr y rheini a oedd â syniadau ynglŷn â'r hyn y gellid ei gyflwyno yn Amgueddfa Glofa Cefn Coed i ymgysylltu â Swyddogion a phwysleisiodd hefyd bwysigrwydd ymgysylltu â'r asiantaethau allanol.

Gofynnwyd sut y byddai'r eitem hon yn cael ei thrin wrth symud ymlaen o ran y trefniadau Craffu; soniwyd na ddylid edrych ar hyn ar ei ben ei hun, ac yn hytrach ei gynnwys fel un rhan o strategaeth ehangach ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cyfansoddiad yn manylu ar y gwahanol swyddogaethau a neilltuwyd i bob Pwyllgor Craffu unigol, ond lle'r oedd themâu'n croesi ar gyfer materion, gellid hwyluso Cyd-bwyllgorau Craffu; er mwyn penderfynu sut y dylid hwyluso'r cyfarfod, byddai angen i Swyddogion ymchwilio i'r pwnc a hefyd ystyried barn Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu perthnasol.

Rhannodd yr Aelodau eu pryderon mewn perthynas â hwyluso Cyd-bwyllgorau Craffu ar gyfer y pwnc hwn. O ran portffolios, esboniwyd

bod Portffolios y Cabinet yn cael eu pennu gan Arweinydd y Cyngor, a'r confensiwn o fewn Cyfansoddiad y Cyngor oedd y dylai'r portffolios Craffu adlewyrchu portffolios y Cabinet; yn ei hanfod, mater i'r Arweinyddiaeth oedd adeiladu'r portffolios gwleidyddol. Fodd bynnag, dywedwyd pe bai'n ddymuniad gan yr Aelodau, y gallai Swyddogion nodi mecanwaith o fewn y fframwaith a'r Cyfansoddiad a fyddai'n caniatáu i'r math cywir o graffu ddigwydd ar y mater penodol hwn.

Darparodd swyddogion eglurder ynghylch proses y mater penodol hwn; bydd y llywodraethu'n cael ei sefydlu ac yna bydd Swyddogion yn ymgynghori â'r Pwyllgorau perthnasol ac yn sicrhau bod yr adroddiadau cynnydd yn mynd yn ôl at ba Bwyllgor bynnag y penderfynwyd bod ganddo buddsoddi diddordeb yn y mater hwn. Hysbyswyd yr Aelodau fod y portffolios yn gorgyffwrdd; mae'r materion sy'n ymwneud â'r ystâd a thwristiaeth yn dod o fewn portffolio'r Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ac mae'r materion diwylliant mewn perthynas â'r amgueddfa yn dod o fewn portffolio'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pherfformiad y gwaith ar yr eiddo a chan y syrfëwr, a gofynnodd yr Aelodau a allai Swyddogion roi mwy o eglurder ar hyn. Cadarnhaodd swyddogion fod rhaglen dreigl o arolygon ar gyfer yr holl adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor; roedd un syrfëwr yn cynnal arolygon yn ogystal â chyflawni rôl syrfëwr rheoli cyfleusterau'r cyngor. Oherwydd nifer o ffactorau megis nifer yr adeiladau, yr elfen amser a'r newid o ran blaenoriaethu adeiladau, nodwyd mai dim ond unwaith bob 5-6 blynedd y byddai rhai adeiladau'n cael eu harolygu, sy'n golygu na fyddai materion yn cael eu nodi'n rheolaidd. Fel y soniwyd eisoes, roedd yr arolwg penodol hwn yn fath arbenigol iawn o waith arolygu; fel arfer byddai syrfewyr y cyngor yn cwblhau arolwg gweledol ac yn codi unrhyw faterion y gallent eu gweld eu hunain, a fyddai wedyn yn cael eu hystyried ymhellach gyda thîm strwythurol mewnol bach y cyngor. Dywedwyd y byddai'r safleoedd mwy cymhleth yn aml yn gofyn am waith arolygu allanol, a oedd yn ddrud ac yn cymryd cryn amser i'w gwblhau. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith na wnaethant synnu bod rhagor o faterion wedi'u nodi pan gwnaed y gwaith arolwg allanol, gan ei bod yn aml yn wir y bydd nifer o faterion eraill yn deillio o'r mater gwreiddiol; roedd hefyd yn ofynnol dod o hyd i gyllid pellach yn aml er mwyn datrys y problemau.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd trefn arolwg bresennol y cyngor mor effeithiol a digonol ag yr oedd angen iddi fod. Er mwyn gwneud mwy

o waith arolygu nag a wneir ar hyn o bryd, dywedwyd y byddai angen llawer mwy o syrfewyr, yn enwedig pe baent yn gwneud y math o waith y mae'r syrfewyr allanol yn ei gwblhau. Hysbyswyd yr Aelodau fod syrfewyr Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cwblhau ymweliadau safle ar gyfer yr holl adeiladau, ond mae rhai cynghorau eraill yng Nghymru yn cwblhau hyn fel ymarfer bwrdd gwaith.

Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd twristiaeth a gofynnwyd a ellid ychwanegu rhagor o Swyddogion Twristiaeth at y tîm er mwyn helpu gyda llwythi gwaith presennol ac yn y dyfodol. Dywedwyd y gwnaed penderfyniad yn 2017 i ailgyflwyno'r Tîm Twristiaeth; penderfynwyd bryd hynny y byddai mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i dwristiaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod y tîm yn fach iawn ac yn cynnwys dau aelod o staff yn unig. Esboniodd swyddogion fod cyfle drwy'r broses graffu i Aelodau gael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y tîm; ar hyn o bryd roedd y Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy'n derbyn diweddariadau cyfnodol ar y pwnc hwn. Soniwyd bod y pandemig wedi amharu'n sylweddol ar rai o'r rhaglenni yr oedd y tîm wedi bod yn gweithio arnynt; serch hynny, roedd cynlluniau ar y gweill i lansio'r brand marchnata cyrchfannau newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Wrth i'r cyngor symud ymlaen a dechrau meddwl am y broses adfer, tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y byddai angen ystyried blaenoriaethau'r cyngor a sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael; fodd bynnag, byddai cyfyngiadau bob amser oherwydd arian a bu'n rhaid i'r cyngor hefyd sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r nifer sylweddol o ddyletswyddau statudol.

Yn dilyn pryderon a gyflëwyd gan Aelodau mewn perthynas â'r diffyg datblygu ar y safle, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd y byddai ymrwymiad gwirioneddol gan Swyddogion i edrych ar sut y gellid datblygu'r safle hwn. Dywedwyd mai diben yr adroddiad oedd darparu gwybodaeth ffeithiol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Amgueddfa Glofa Cefn Coed, ond roedd Swyddogion yn cydnabod y siom yr oedd colli'r grant wedi'i achosi. Ychwanegwyd bod Swyddogion yn croesawu awgrymiadau'r Aelodau mewn perthynas â phwy allai roi mewnbwn a helpu'r cyngor i archwilio sut y gellid datblygu'r safle.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod nifer o ffyrdd o sicrhau y byddai'r holl Aelodau'n cael eu cynnwys yn y strwythurau a sefydlwyd mewn perthynas â'r mater hwn. Fel yr awgrymwyd, gellid cynnwys yr Aelodau Lleol a'r Aelod Cabinet yn y strwythur a byddai Swyddogion yn edrych ar wahanol ffyrdd o wneud hyn; yn ogystal ag ymgynghori â'r Aelodau i sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried. O ran Craffu yn

y dyfodol, pe bai'r Aelodau Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant a Chraffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy yn dymuno bod yn rhan o'r gwaith parhaus o fonitro'r eitem hon, yna gellid gwneud hyn drwy raglennu'r Blaenraglen Waith Craffu.

Trafododd y Pwyllgor ffurfioldebau Gweithgor Cefn Coed; darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd eglurder ar y mater a'r swyddogaethau a fyddai gan y Grŵp a’r ffyrdd posib o gynnwys eraill yn hyn.

Cynigiwyd a chytunwyd y dylid ychwanegu'r canlynol at yr argymhelliad yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:

- Mewn perthynas â Gweithgor Cefn Coed, ceisir barn y tri Aelod Lleol a'r Aelod Cabinet perthnasol ar gyfnodau allweddol
- Caiff adroddiadau eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn rheolaidd gyda diweddariadau.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

**CADEIRYDD**